OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 3144 (Cy.272) (C.136)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 30 Tachwedd 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adrannau 47(5) a 52(6), o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004.

2. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru yn unig.

3. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a'r Atodlenni iddi.

Diwrnodau penodedig

4. Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym yw 1 Rhagfyr 2004.

5. Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym yw 1 Ionawr 2005.

Darpariaeth drosiannol

6. Er gwaethaf dwyn i rym adran 20 ac adran 46, mae gan ymwelydd sefydliad cymwys awdurdodaeth mewn perthynas â —

(a) unrhyw gŵ yn sy'n dod o fewn adran 20(2) neu (3) os cyflwynwyd y gŵ yn honno i'r ymwelydd cyn 1 Ionawr 2005; a

(b) unrhyw gŵ yn sy'n dod o fewn adran 46(1) os cyflwynwyd y gŵ yn honno i'r ymwelydd cyn 1 Ionawr 2005.

(**1**) 2004 p.8.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

John Marek
30 Tachwedd 2004 Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.